Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dogfen Ôl-Ymgynghori

# Cynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Penygelli o fis Medi 2027

Ysgol Penygelli

Heol Glyndŵr

Coed-poeth

Wrecsam

LL11 3HA

**Cynnwys**


**Cyflwyniad** ........ **3**

**Cyhoeddi'r Ymgynghoriad** ........ **3**

Rhestr yr Ymgyngoreion ........ 3

Ymgyrch Cyfathrebu ........ 4

**Sesiynau Ymgynghori** ........ **4**

Amserlen y Sesiynau Galw Heibio ........ 5

**Adborth am yr Ymgynghoriad** ........ **5**

Ymatebwyr ........ 5

Dadansoddiad Meintiol-Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Oedolion ........ 6

Dadansoddiad Meintiol-Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Oedolion ........ 6

**Cyngor Ysgol** ........ **6**

Adborth gan Gyngor Ysgol Penygelli-15 Ionawr 2026 ........ 7

Sylwadau gan y Cyngor Ysgol ........ 7

**Adborth Estyn** ........ **7**

Crynodeb/Casgliad ........ 7

Disgrifiad a Manteision ........ 7

Agweddau Addysgol y Cynnig ........ 8

**Trin Pawb yn Deg** ........ **8**

**Y Gymraeg** ........ **9**

**Carbon** ........ **10**

**Data Monitro Cydraddoldeb-'Amdanoch Chi'** ........ **10**

Oedran ........ 11

Rhyw ........ 11

Ailbennu Rhywedd ........ 11

Hil-Hunaniaeth Genedlaethol ........ 11

Hil-Ethnigrwydd ........ 12

Anabledd ........ 13

Gofalwr ........ 13

Beichiogrwydd a Mamolaeth ........ 13

Cyfeiriadedd Rhywiol ........ 13

Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred) ........ 14

Priodas a Phartneriaeth Sifil ........ 14

Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau sy’n Dibynnu ar Brawf Modd ..... 14
Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau Anabledd ..... 15
Ward Etholiadol ..... 15
Y Gymraeg ..... 16
**Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg ..... 17**
**Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ..... 18**
**Cwestiynau Cyffredin ..... 18**
**Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau ..... 18**
**Casgliad ..... 18**
**Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol ..... 19**

## Cyflwyniad

Yn ddiweddar, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cwblhau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Penygelli o 45 i 30 o fis Medi 2027.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ddydd Mawrth 2 Rhagfyr 2025 a daeth i ben ddydd Llun 2 Chwefror 2026.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ac yn rhoi arweiniad i gyrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol; yn cyfeirio at ganfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ceisio ateb ymholiadau a ofynnwyd i'r Awdurdod Lleol.

## Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr ymgynghoriad trwy gyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori ddwyieithog ddydd Mawrth 2 Rhagfyr 2025 ar wefan y Cyngor. Cafodd dolenni i'r dogfennau eu hanfon trwy e-bost i'r rhestr lawn o ymgyngoreion. Dan arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r manylion isod yn nodi rhestr o'r sawl a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori neu a gafodd eu cyfeirio ati yn ystod y cyfnod ymgynghori. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ddydd Llun 2 Chwefror 2026.

### Rhestr yr Ymgyngoreion

Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Y Corff Llywodraethu yn Ysgol Penygelli
- Holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid (a darpar rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid) Ysgol Penygelli.
- Aelodau staff yn Ysgol Penygelli
- Cyngor Cymuned Coed-poeth
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llŷr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS, Steve Witherden AS
- Estyn

- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Penygelli
- Adran Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Wrecsam
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol, Grwpiau Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg lleol
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

Wrth gynnal yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddefnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â phobl. Fe wnaethom gasglu data meintiol ac ansoddol. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gwblhau arolwg ar-lein, trwy lenwi ffurflen ymgynghori copi caled neu drwy e-bostio neu ysgrifennu at yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar. Roedd modd cyflwyno ymatebion yn electronig neu ar ffurf papur copi caled.

Roedd y ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu’r Saesneg ar gais. Roedd hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais.

**Ymgyrch Cyfathrebu**

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn eang trwy gydol y cyfnod ymgynghori gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a oedd yn cynnwys:

- Baner 'Eich Llais' ar wefan CBSW.
- Rhoi codau QR i gael mynediad at yr arolwg.
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol CBSW.
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy flog Newyddion Cyngor Wrecsam.
- Gwybodaeth wedi’i chylchredeg trwy Fwletin Cynnwys CBSW.
- Ymgyrch posteri ardal leol.
- Dosbarthu Llyfrynnau Ymgynghori.

## Sesiynau Ymgynghori

Fel rhan o'r broses ymgynghori gyhoeddus, cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb gan Swyddogion Addysg yn Ysgol Penygelli ac yn y gymuned. Gwahoddwyd rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, i ddod i'r sesiynau. Byddai unrhyw un a ddaeth wedi derbyn gwybodaeth ac wedi cael cais i roi adborth i'r ymgynghoriad. Roedd sawl ffordd i wneud hyn. Byddai Swyddogion Addysg yn darparu codau QR a byddent yn egluro y gellid dychwelyd unrhyw adborth mewn llawysgrifen i'r cyfeiriad a nodwyd. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys dolenni i’r arolwg a chopi caled y gellid ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad a nodwyd. Roedd modd cysylltu hefyd trwy e-bost. Daeth neb i’r sesiynau galw heibio. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gofynnwyd am 0 llyfryn. Roedd swyddogion hefyd wedi cynnig sesiwn galw heibio rithwir, ond wnaeth neb o blith yr ymgyngoreion ofyn am y ddolen i’r sesiwn hon.

**Amserlen y Sesiynau Galw Heibio**

| Natur y Sesiwn | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| **Sesiwn Galw Heibio** | Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026 | 9.30am-12.30pm | Canolfan Adnoddau Cymunedol Plas Pentwyn |
| **Sesiwn Galw Heibio** | Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026 | 2.45pm-3.45pm | Ysgol Penygelli |
| **Sesiwn Rithwir** | Dydd Llun 19 Ionawr 2026 | Trwy apwyntiad | Dolen ar-lein |

## Adborth am yr Ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr ymatebion canlynol:

| Fformat yr Ymateb | Nifer yr Ymatebion a Gafwyd |
|---|---|
| Ymatebion Ar-lein (Arolwg Oedolion) | 4 |
| Ymatebion Ar-lein (Arolwg Plant a Phobl Ifanc) | 0 |
| Cyngor Ysgol Penygelli | 6 |
| Negeseuon E-bost gan Grwpiau | 1 (Estyn) |
| Ffurflen Copi Caled | 0 |
| **Nifer yr Ymatebion a Gafwyd** | **11** |

### Ymatebwyr

Mae dadansoddiad o'r ymatebwyr i'r arolwg oedolion ar-lein wedi'i nodi isod:

| Pwy Ymatebodd | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Aelod o Staff | 0 |
| Aelod o'r Gymuned Ehangach | 0 |
| Rhiant/Gofalwr/Gwarcheidwad | 1 |

| | |
|---|---|
| Perthynas i’r Disgybl | 2 |
| Aelod o'r Gymuned Leol | 0 |
| Darpar Riant/Gofalwr/Gwarcheidwad | 0 |
| Darpar Berthynas i’r Disgybl | 0 |
| Llywodraethwr | 1 |
| Dim Cysylltiad | 0 |
| Arall/Sefydliad | 0 |
| Dim Ateb | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Dadansoddiad Meintiol-Ymatebion i’r Arolwg Ar-lein gan Oedolion**

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i newid y nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Penygelli o fis Medi 2027', roedd 2 o 4 (50%) o’r ymatebwyr i'r arolwg oedolion yn cefnogi'r cynnig ac roedd 2 o 4 (50%) o’r ymatebwyr i'r arolwg oedolion yn erbyn y cynnig.

**Dadansoddiad Meintiol-Ymatebion i’r Arolwg Ar-lein gan Oedolion**

Gofynnon ni hefyd i bobl roi sylwadau os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- "Bydd yn cefnogi'r pennaeth a'r corff llywodraethu i reoli cyllid ac adnoddau eraill yr ysgol yn well".
- "Mae dosbarthiadau yn rhy fawr ar hyn o bryd, efallai mai dyma'r cyfle i'r dosbarthiadau fynd yn ôl i ddosbarthiadau pur yn hytrach na chymysgu'r blynyddoedd. Byddai hyn yn well i'r plant a'r staff addysgu".
- "Gyda stadau tai newydd yn cael eu hadeiladu yn Wrecsam, dw i'n credu ei bod hi'n debygol y bydd yr un nifer neu fwy o blant yn mynychu'r ysgol yn y dyfodol. Dylai'r ysgol aros fel y mae fel y gall barhau i ddarparu digon o leoedd".
- "Mae gan yr ysgol y cyfleusterau i gymryd mwy o ddisgyblion. Byddai'n wastraff llwyr i'r ysgol gael llai o ddisgyblion. Mae angen cefnogaeth ar yr ysgol i gael mwy o ddisgyblion, mae'r staff a'r cyrff llywodraethu yn gweithio mor galed i weld eu disgyblion yn ymdrechu ac mae'r gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi i'w plant yn mynd y tu hwnt i’r mwyafrif!”

## Cyngor Ysgol

Cyhoeddwyd fersiwn ddwyieithog i blant o'r Ddogfen Ymgynghori ar wefan Cyngor Wrecsam ynghyd â'r Ddogfen Ymgynghori lawn. Roedd arolwg ar-lein dwyieithog i blant hefyd ar gael.

Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaeth Swyddogion Awdurdodau Lleol gwrdd â'r Cyngor Ysgol i drafod y cynigion.

| Dyddiad | Math o Sesiwn | Lleoliad | Nifer yr Ymgyngoreion |
|---|---|---|---|
| 15 Ionawr 2026 | Cyngor Ysgol | Ysgol Penygelli | 6 Plentyn |

Yn ystod cyfarfod y Cyngor Ysgol, fe wnaeth y plant dderbyn copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ac esboniodd swyddogion beth oedd yr ymgynghoriad. Anogwyd y plant i ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw syniadau oedd ganddynt.

**Adborth gan Gyngor Ysgol Penygelli-15 Ionawr 2026**

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n deall ein syniad?', dywedodd 4 o 6 disgybl (66%) ar y Cyngor Ysgol eu bod yn deall, dywedodd 1 o 6 disgybl (17%) ar y Cyngor Ysgol nad oeddent yn siŵr a oeddent yn deall a dywedodd 1 o 6 disgybl (17%) ar y Cyngor Ysgol nad oeddent yn deall.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad?', dywedodd 2 o 6 disgybl (33%) ar y Cyngor Ysgol eu bod yn hoffi'r syniad a dywedodd 4 o 6 disgybl (67%) ar y Cyngor Ysgol nad oeddent yn siŵr a oeddent yn hoffi'r syniad.

**Sylwadau gan y Cyngor Ysgol**

- "Dw i'n hoffi fo".
- "Dw i'n credu y byddwn i'n hoffi fo".

## Adborth Estyn

**Cynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Penygelli o fis Medi 2027**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn i ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae'r cynigion yn debygol o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg.

**Disgrifiad a Manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi rhesymeg glir dros y cynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Penygelli o fis Medi 2027. Maent wedi darparu disgrifiad manwl ac amserlen prosiect ac ymddengys eu bod wedi nodi'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o'i gymharu â'r status quo.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn ac mae'n ymddangos eu bod wedi lliniaru yn eu herbyn yn briodol. Maent wedi gosod opsiynau amgen ac wedi esbonio pam mae'r rhain wedi'u diystyru.

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried hygyrchedd y ddarpariaeth a'r trefniadau teithio i ddisgyblion yn briodol. Mae'r awdurdod lleol wedi dangos yn effeithiol sut y bydd lleoedd dros ben yn cael eu lleihau yn yr ysgol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Ymddengys bod yr awdurdod lleol wedi ystyried yn briodol effaith y newidiadau arfaethedig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu y gellir gwneud arbedion posibl os yw'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, nid yw'n darparu manylion am faint fydd yn cael ei arbed.

Nid yw'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

### Agweddau Addysgol y Cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried, yn rhannol, yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar ansawdd a safonau addysg. Maent yn nodi y bydd y cynnig hwn yn eu galluogi i gynnal y safonau addysgol cyfredol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ystyried yn dda effaith debygol y cynigion i sicrhau y cyflwynir y cwricwlwm llawn ym mhob cam.

Nid yw'r effaith ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i hystyried fel rhan o'r cynnig hwn, ac eithrio'r trefniadau trafnidiaeth presennol. Nid yw'n glir o'r cynnig sut y bydd y disgyblion hyn yn cael eu hamharu arnynt a sut y bydd yr awdurdod lleol yn lleihau hyn.

Mae'r cynnig yn ystyried adroddiadau diweddar Estyn ar gyfer yr ysgol, ysgolion cyfagos, a'r awdurdod lleol yn briodol.

## Trin Pawb yn Deg

Yn ogystal â gofyn a oedd pobl yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r cynnig, gwnaethom ofyn cwestiynau ynghylch pa mor deg oedd y cynnig yn eu barn nhw. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran am ‘drin pawb yn deg’ yn yr arolwg.

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n meddwl y gallai'r strategaeth hon neu'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 1 |
| Nac ydw | 2 |

| | |
|---|---|
| Ddim yn siŵr/Ddim yn gwybod | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** |

Dewisodd 1 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Os ydych chi'n meddwl y gallai'r strategaeth hon neu'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion, pa grwpiau neu unigolion allai fod dan anfantais yn eich barn chi a pham?'. Derbyniwyd y sylw canlynol:

- "Byddai'n annheg ar staff Ysgol Penygelli. Maen nhw'n gweithio mor galed i'r ysgol fod mor dda â phosib. Byddai eu gwaith caled yn cael ei wastraffu dim ond oherwydd bod cyfraddau genedigaethau is".

Dewisodd 2 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Ydych chi'n meddwl bod unrhyw botensial yn y ffordd rydym yn cyflawni'r strategaeth neu'r cynnig dan ystyriaeth i wneud pethau'n decach i'r grwpiau neu'r unigolion rydych chi wedi'u nodi?'. Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- "O ystyried y gallu i gynllunio'r defnydd o gyllid ac adnoddau gyda mwy o sicrwydd, bydd pethau'n decach i bob disgybl, staff a rhanddeiliaid. Hefyd, bydd yn rhyddhau adnoddau o fewn yr ysgol i ddarparu Darpariaeth Adnoddau i blant o bob rhan o'r sir o bosib".
- "Darparu cefnogaeth i'r ysgol, mwy o gyllid fesul plentyn. Bydd y staff mewn ysgolion yn y pen draw yn lleihau ac yn cael eu gorweithio. Byddant yn sâl ac o dan straen a bydd y plant yn dioddef os nad yw'r staff yno i'w cefnogi".

## Y Gymraeg

Fe wnaethom hefyd ofyn i bobl am eu syniadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno'r cynnig. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran yn yr arolwg oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Dewisodd 2 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- "O ystyried ymrwymiad tîm rheoli'r ysgol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol hon, dw i'n credu y bydd defnydd mwy effeithlon a chytbwys o adnoddau'r ysgol yn gwella'r Gymraeg."
- "Dim".

Dewisodd 2 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Yn eich barn chi, pa effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?' Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- "Amherthnasol".
- "Dim".

Dewisodd 1 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Yn eich barn chi, sut gellid llunio neu ddiwygio'r polisi dan sylw fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu

effeithiau mwy cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?'. Derbyniwyd y sylw canlynol:

- "Amherthnasol"

Dewisodd 1 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Yn eich barn chi, sut gallai'r polisi dan sylw gael ei lunio neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau negyddol neu fel y byddai'n cael effaith lai negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?'. Derbyniwyd y sylw canlynol:

- "Amherthnasol"

## Carbon

Gofynnon ni i bobl a oeddent yn meddwl y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran am garbon yn yr arolwg. Dewisodd 3 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n meddwl y bydd y strategaeth neu'r cynnig dan sylw yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol hirdymor | 0 |
| Effaith negyddol hirdymor | 0 |
| Effeithiau cadarnhaol a negyddol hirdymor | 0 |
| Dim effaith | 3 |
| Ddim yn gwybod/siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** |

Ni ddewisodd unrhyw ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol hirdymor? Os felly, disgrifiwch y rhain isod, ynghyd ag unrhyw syniadau i'w lleihau.'

## Data Monitro Cydraddoldeb-'Amdanoch Chi'

Gwnaethom ofyn nifer o gwestiynau monitro cydraddoldeb yn yr arolwg o dan y pennawd 'Amdanoch Chi'. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran 'amdanoch chi' yn yr arolwg. Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi sylw dyledus i'r angen am leihau'r canlyniad anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

**Oedran**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich oedran? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Dan 11 oed | 0 |
| 11-15 mlynedd | 0 |
| 16-24 oed | 0 |
| 25-34 oed | 1 |
| 35-44 oed | 0 |
| 45-54 oed | 2 |
| 55-64 oed | 1 |
| 65-74 oed | 0 |
| 75 oed a hŷn | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Rhyw**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn

| Beth yw eich rhyw? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gwryw | 1 |
| Benyw | 3 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Ailbennu Rhywedd**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydy eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd adeg eich geni? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydy | 0 |
| Nac ydy | 4 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Hil-Hunaniaeth Genedlaethol**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Cymro/Cymraes | 2 |
| Sais/Saesnes | 1 |
| Albanwr/Albanes | 0 |
| Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 0 |
| Prydeiniwr/Prydeinwraig | 1 |
| Arall | 0 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Hil-Ethnigrwydd**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich grŵp ethnig? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig) | 4 |
| Gwyddelig | 0 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 |
| Roma | 0 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 0 |
| Asiaidd-Indiaidd | 0 |
| Asiaidd-Pacistanaidd | 0 |
| Asiaidd-Bangladeshaidd | 0 |
| Asiaidd-Tsieineaidd | 0 |
| Asiaidd-unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 |
| Du-Caribïaidd | 0 |
| Du-Affricanaidd | 0 |
| Du-unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 0 |
| Cymysg-Gwyn a Du Caribïaidd | 0 |
| Cymysg-Gwyn a Du Affricanaidd | 0 |
| Cymysg-Gwyn ac Asiaidd | 0 |
| Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall | 0 |
| Arabaidd | 0 |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 0 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Anabledd**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydy eich gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu sy’n debygol o bara, am 12 mis o leiaf? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydyn, wedi’u cyfyngu’n fawr | 1 |
| Ydyn, wedi’u cyfyngu ychydig | 0 |
| Nac ydy | 3 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Gofalwr**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n gofalu am-neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i-aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd anabledd/salwch corfforol neu feddyliol hirdymor neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 2 |
| Nac ydw | 2 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn

| Ydych chi’n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog neu wedi bod ar absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 0 |
| Nac ydw | 4 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau sut rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Heterorywiol neu syth | 4 |
| Dyn hoyw | 0 |
| Menyw hoyw/lesbiad | 0 |
| Deurywiol | 0 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Crefydd neu Gred** (gan gynnwys diffyg cred)

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich crefydd neu eich cred? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Dim crefydd | 0 |
| Cristion (pob enwad) | 2 |
| Mwslim | 0 |
| Bwdhydd | 0 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 0 |
| Sikh | 0 |
| Anffyddiwr | 1 |
| Arall | 1 (Paganaidd) |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi’n briod neu mewn partneriaeth sifil? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 3 |
| Nac ydw | 1 |
| Rwy'n berson ifanc dan 18 oed | 0 |
| Rwy'n wraig weddw/ŵr gweddw | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau sy’n Dibynnu ar Brawf Modd**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu'ch aelwyd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (er enghraifft, Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth, Lwfans Gofalwyr, Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor)? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw/ydy | 1 |
| Nac ydw/nac ydy | 3 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau Anabledd**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref yn derbyn budd-daliadau anabledd (er enghraifft: Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, Lwfans Gweini Cyson, Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel)? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw/ydy | 2 |
| Nac ydw/nac ydy | 2 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Ward Etholiadol**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ward Etholiadol | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gogledd Acrefair | 0 |
| Acton a Maesydre | 0 |
| Bangor-is-y-Coed | 0 |
| Parc Borras | 0 |
| Bronington a Hanmer | 0 |
| Brymbo | 0 |
| Bryn Cefn | 0 |
| Brynffynnon | 0 |
| Cartrefle | 0 |
| Dwyrain Cefn | 0 |
| Gorllewin Cefn | 0 |

| | |
|---|---|
| Dyffryn Ceiriog | 0 |
| Gogledd y Waun | 0 |
| De’r Waun | 0 |
| Coed-poeth | 3 |
| Erddig | 0 |
| Esclys | 0 |
| Garden Village | 0 |
| Dwyrain/Gorllewin Gresffordd | 0 |
| Grosvenor | 0 |
| Gwenfro | 0 |
| Dwyrain Gwersyllt | 0 |
| Gogledd Gwersyllt | 0 |
| De Gwersyllt | 0 |
| Gorllewin Gwersyllt | 0 |
| Meudwyfa | 0 |
| Holt | 0 |
| Acton Fechan | 0 |
| Llangollen Wledig | 0 |
| Llai | 0 |
| Marchwiel | 0 |
| Merffordd a Hoseley | 0 |
| Mwynglawdd | 0 |
| New Broughton | 0 |
| Offa | 0 |
| Owrtyn a De Maelor | 0 |
| Pant a Johnstown | 0 |
| Penycae | 0 |
| Penycae a De Rhiwabon | 0 |
| Ponciau | 0 |
| Queensway | 0 |
| Rhos | 0 |
| Rhosnesni | 0 |
| Yr Orsedd | 0 |
| Rhiwabon | 0 |
| Smithfield | 0 |
| Stansty | 0 |
| Clwydwen | 0 |
| Wynnstay | 0 |
| Dydw i ddim yn byw yn Wrecsam | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** |

**Y Gymraeg**

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich dewis iaith? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Saesneg | 4 |
| Cymraeg | 0 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

## Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg

Ar ddiwedd yr arolwg, fe wnaethom ofyn tri chwestiwn am brofiadau pobl o gwblhau'r arolwg. Nid oedd pob person wedi dewis ateb cwestiynau monitro ansawdd yr arolwg.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau?’, dewisodd 4 ymatebwr ateb.

| Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Hawdd iawn | 1 |
| Eithaf hawdd | 3 |
| Eithaf anodd | 0 |
| Anodd iawn | 0 |
| Ddim yn gwybod/Ddim yn siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn?’, dewisodd 4 ymatebwr ateb.

| Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 1 |
| Ddim yn siŵr | 2 |
| **Cyfanswm** | **4** |

Pan atebodd yr ymgyngoreion 'Naddo' neu 'Ddim yn siŵr' ar gyfer y cwestiwn diwethaf, gofynnwyd iddynt a oedden nhw’n meddwl bod unrhyw beth y dylen ni fod wedi’i ofyn. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘Pan ofynnon ni gwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn?’, dewisodd 4 ymatebwr ateb.

| Pan oedden ni’n gofyn cwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Oedd | 1 |
| Nac oedd | 1 |
| Ddim yn siŵr | 2 |

| Cyfanswm | 4 |
|---|---|

Pan atebodd yr ymgyngoreion 'Nac oedd' neu 'Ddim yn siŵr' ar gyfer y cwestiwn diwethaf, gofynnwyd iddynt a oedden nhw'n meddwl bod unrhyw beth y dylen ni fod wedi'i ofyn. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gael i'w weld/lawrlwytho trwy'r ddolen Ymgynghoriad ar y cynnig i leihau'r nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penygelli | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

## Cwestiynau Cyffredin

Cafodd cwestiynau cyffredin eu cofnodi yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Gellid dod o hyd i adran 'Cwestiynau Cyffredin' ddynodedig gydag ymatebion ar blatfform cyfranogiad y Cyngor, Eich Llais Cwestiynau Cyffredin - Ymgynghoriad ar y cynnig i leihau'r nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penygelli | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau

### O blaid y cynnig:

- Roedd 2 o 4 ymateb i'r arolwg oedolion o blaid y cynnig.
- Roedd 2 o 6 ymateb gan y Cyngor Ysgol o blaid y cynnig.

### Yn erbyn y cynnig:

- Roedd 2 o 4 ymateb i'r arolwg oedolion yn erbyn y cynnig.
- Roedd 0 o 6 ymateb gan y Cyngor Ysgol yn erbyn y cynnig.

### Ddim yn siŵr

- Dywedodd 0 o 4 ymateb i'r arolwg oedolion nad oeddent yn siŵr a oeddent yn hoffi'r syniad.
- Dywedodd 4 o 6 aelod o'r Cyngor Ysgol nad oeddent yn siŵr a oeddent yn hoffi'r syniad.

Casgliad cyffredinol Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg.

## Casgliad

Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig presennol a bydd y sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal, mae'n fwy tebygol y bydd yr ysgol yn dod yn anhyfyw oherwydd gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru dros gyfnod parhaus a nifer rhagamcanol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Penygelli. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu, er gwaethaf rhai pryderon a godwyd, mai'r cynnig i leihau'r nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Penygelli fyddai'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

## Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar 14 Ebrill 2026 i drafod yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i leihau'r NDC yn Ysgol Penygelli. Bydd gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol i barhau i'r cam Hysbysiad Statudol wrth benderfynu ar y gostyngiad yn lleoedd disgyblion yn Ysgol Penygelli. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn bydd yr Awdurdod Lleol yn dychwelyd i'r Bwrdd Gweithredol i wneud y penderfyniad terfynol.

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac i'r rhai a'n helpodd i drefnu a hyrwyddo’r broses o ymgysylltu â'r gymuned a'r ysgol.